

SL(5)672 – Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Diben y Rheoliadau hyn yw sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol unwaith y bydd y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Rheoliadau yn diwygio cyfeiriadau diangen at gyfreithiau a systemau'r UE na fyddant bellach yn berthnasol ar ddiwedd y cyfnod gweithredu. Mae'r diwygiadau arfaethedig yn cael eu gwneud yn unol â'r Ddeddf Ymadael er mwyn sicrhau nad oes unrhyw rwystr deddfwriaethol i symud anifeiliaid byw (gan gynnwys ceffylau), a masnachu mewn cynhyrchion anifeiliaid (gan gynnwys cig) gyda'r UE a thrydydd gwledydd rhestredig eraill ar ddiwedd y cyfnod gweithredu.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau gweithredol i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011 ("Rheoliadau 2011"). Mae Rhan 3 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i offerynnau statudol eraill sy'n berthnasol i'r fasnach mewn anifeiliaid a chynhyrchion perthynol.

Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno yn unol â Rheol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2 (v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Mae Rheoliad 3 (a)(i) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliad 2(1) o Reoliadau 2011 drwy ddarparu mai ystyr "*safle rheoli ar y ffin*" yw'r hyn a nodir yn Rheoliad 11 o Reoliadau 2011.

Gofynnir am eglurhad pam y gwneir y diwygiad hwn o gofio bod Rheoliad 2(3)(c) o Reoliadau 2011 yn barod yn darparu bod "*safle rheoli ar y ffin*" ("*border control post*") wedi'i ddiffinio yn Rheoliad 11.



Rhinweddau: craffu

Mae'r ddau bwynt a ganlyn wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt yn unol â Rheol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae Rheoliadau 2011, y mae'r Rheoliadau hyn yn eu diwygio, yn sefydlu system i fasnachu anifeiliaid byw a deunydd genetig ac i fewnforio anifeiliaid byw, deunydd genetig a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid. Nodir bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi lansio [ymgyngoriad yng Nghymru a Lloegr](#) ar 3 Rhagfyr am gyfnod o wyth wythnos, gan ofyn barn am sut i ddiogelu lles anifeiliaid wrth iddynt gael eu cludo. Mae'r ymgynghoriad yn bennaf yn trafod dirwyn i ben yr arfer o allforio anifeiliaid byw ar gyfer eu lladd a'u pesgi pan fo'r teithiau hynny'n cychwyn yng Nghymru neu Lloegr neu'n croesi'r gwledydd hyn, ac am ffyrdd o wella lles anifeiliaid wrth eu cludo yn fwy cyffredinol. Er nad yw'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn yn uniongyrchol, mae themâu cyffredin yn codi mewn perthynas â lles anifeiliaid a'r system ar gyfer masnachu anifeiliaid byw ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mewn [datganiad i'r wasg](#), mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn nodi ei bod yn cydnabod bod iechyd a lles anifeiliaid yn fater sydd wedi'i ddatganoli'n llawn, gan ychwanegu ei bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar yr ymgynghoriad hwn. O ran Llywodraeth yr Alban, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn nodi y bydd yn trafod canlyniadau'r ymgynghoriad â Llywodraeth yr Alban, gyda'r nod o sicrhau bod rheolau tebyg yn gymwys ledled Prydain Fawr ynghylch gwella'r camau a gymerir i ddiogelu anifeiliaid sy'n cael eu cludo.

O dan y rhaglen fframweithiau cyffredin, cytunodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig i weithio gyda'i gilydd i sefydlu dulliau cyffredin mewn rhai meysydd sydd wedi'u llywodraethu gan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd, ond eu bod fel arall o fewn cymhwysedd y gweinyddiaethau neu ddeddfwrfeydd datganoledig. Iechyd a lles anifeiliaid yw un o'r meysydd a nodwyd o dan y rhaglen fframweithiau cyffredin.

Mae'n nodedig bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cynnal ymgynghoriad ar ymwahaniad posibl i ffwrdd oddi wrth reolau'r Undeb Ewropeaidd ynghylch lles anifeiliaid yn absenoldeb cytundeb rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig ar fframwaith amgen.

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodir bod Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol drwy lythyr a anfonwyd ar 17 Tachwedd 2020, yn unol â'r gofyniad o dan baragraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 fod Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â'r



Ysgrifennydd Gwladol ar unrhyw ddarpariaethau a wneir o dan y pwerau hynny, y disgwylir iddynt ddod i rym cyn diwedd y cyfnod gweithredu.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ac eithrio'r materion a nodir uchod, ni nodir unrhyw oblygiadau eraill i gyflwyno adroddiad arnynt yn unol â Rheol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Ymateb gan Lywodraeth Cymru

Pwynt Craffu Technegol 1:

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt adrodd hwn ac yn nodi nad oes angen y diwygiad hwn gan fod rheoliad 2(3)(c) o Reoliadau 2011 eisoes yn darparu bod "safle rheoli ar y ffin" wedi ei ddiffinio yn rheoliad 11. Bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gywiro hyn ar y cyfle addas nesaf.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:

Mae swyddogion o bob un o'r pedair Gweinyddiaeth ar y cyd wedi llunio'r Fframwaith Cyffredin dros dro ar lechyd a Lles Anifeiliaid, sy'n nodi'r trefniadau llywodraethu hirdymor mewn meysydd a fydd yn dychwelyd i'r DU ar ôl iddi ymadael â'r UE a'r meysydd sy'n gorgyffwrdd â chymhwysedd datganoledig. Mae'n adeiladu ar y berthynas dda sydd rhwng pob un o'r gweinyddiaethau datganoledig ym maes iechyd a lles anifeiliaid, ac yn defnyddio trefniadau llywodraethu megis cyrff ar y cyd y gweinyddiaethau datganoledig sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch polisi: y Grŵp Polisi Clefydau Anifeiliaid a'r Grŵp Polisi Lles Anifeiliaid.

Mae'r Fframwaith Cyffredin ar lechyd a Lles Anifeiliaid yn cynnwys ymrwymiad i beidio â gwyro oddi wrth safonau sylfaenol mewn modd sy'n niweidiol i fioddio gelwch, lles neu farchnad fewnol y DU ar draws meysydd polisi perthnasol pan fo hynny'n bygwth Egwyddorion y Fframwaith Cyffredin, ond gan gadw'r cymhwysedd i ddeddfu'n annibynnol.

Ni fydd hyn yn effeithio ar allu pob gweinyddiaeth i wyro uwchlaw'r safonau hyn, ond dylid hefyd hysbysu'r gweinyddiaethau eraill am benderfyniadau o'r fath, fel bod modd nodi unrhyw risg o wyro mewn modd niweidiol ac ymdrin â hynny'n unol â'r trefniadau a nodir yn y Fframwaith.

Bydd y pedair gweinyddiaeth ar y cyd yn ystyried unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid er mwyn sicrhau bod y safonau uchaf posibl yn parhau i gael eu harfer.

Mae'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i fewnforion anifeiliaid, cynhyrchion eginol anifeiliaid a chynhyrchion eraill, ond nid i allforion.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y cyd â Llywodraeth y DU ar gynigion i ddirwyn i ben allforio anifeiliaid byw (ac eithrio dofednod) i'w cigyddu a'u pesgi pan fo'r siwrneiau'n cychwyn yng Nghymru neu yn Lloegr neu'n teithio drwy Gymru neu Loegr. Mae ymadael â'r UE wedi ein galluogi i fynd ar drywydd y cynigion hyn a fyddai'n atal anifeiliaid rhag dioddef



yn ddianghenraid wrth gael eu cludo. Rydym hefyd yn ymgynghori ar gynigion i wella lles anifeiliaid ymhellach wrth eu cludo yn fwy cyffredinol, megis: lleihau hyd y siwrneiau hiraf a ganiateir; mwy o le i'r anifeiliaid a mwy o le uwch eu pennau wrth eu cludo; rheolau llymach ar gludo anifeiliaid mewn tymheredd eithafol; a rheolau llymach ar gludo anifeiliaid byw ar y môr.

Daw'r ymgynghoriad ar y cyd rhwng Defra a Llywodraeth Cymru yn sgil galwad gynharach am dystiolaeth gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ym mis Ebrill 2018 ynghylch rheoli allforion anifeiliaid byw i'w cigydd a gwella lles anifeiliaid wrth eu cludo, a Barn y Pwyllgor Lles Anifeiliaid a Ffermir (Pwyllgor Lles Anifeiliaid (Prydain Fawr) bellach) ar Les Anifeiliaid wrth eu Cludo (2019). Dylid nodi, gan fod anifeiliaid at ei gilydd yn symud heb gyfyngiadau o fewn 'marchnad sengl' Prydain Fawr, fod angen i bob gweinyddiaeth gydweithio'n agos â'i gilydd, oherwydd gallai gwyro o ran cyfyngiadau mewn un wlad olygu bod y fasnach yn digwydd yn rhywle arall.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod, a nodwyd a hefyd i dynnu sylw at faterion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

